# Crynodeb o Berfformiad a Gweithgareddau y GIG: Ionawr/Chwefror 2020

**19 Mawrth 2020**
**SFR 19/2020**

Yn dilyn y cyhoeddiad ar Ddydd Gwener Mawrth 13eg o ran llacio targedau a monitro'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chanslo rhai gweithdrefnau, rydym yn ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud i gyhoeddi'r ystadegau hyn. Byddwn yn diweddaru defnyddwyr yn fuan ar ein cynlluniau.

Darperir data sy'n ymwneud ag amseroedd ymateb ambiwlansys, yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ac achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer mis Chwefror 2020

Darperir data sy'n ymwneud ag amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, amseroedd aros canser, amseroedd aros diagnostig a therapi, ac atgyfeirio cleifion allanol ar gyfer mis Ionawr 2019

## Crynodeb

### Gofal heb ei drefnu

Roedd canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi gwella ac roedd nifer y cleifion sy'n treulio dros 12 awr yno wedi lleihau ers y mis blaenorol. Roedd cyfartaledd y derbyniadau dyddiol i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi gostwng ers y mis blaenorol.

Roedd nifer cyfartalog cyffredinol y galwadau dyddiol i'r gwasanaeth ambiwlans a nifer cyfartalog y galwadau dyddiol yn y categori mwyaf difrifol ('galwadau coch') yn is ym mis Chwefror 2020. Roedd canran y galwadau coch lle cafwyd ymateb o fewn 8 munud wedi cynyddu ac yn uwch na'r targed o 65%.

Roedd nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu ym mis Chwefror ond roedd y cyfartaledd dros dri mis wedi gostwng.

### Gofal wedi'i drefnu

Roedd nifer y cleifion a oedd yn aros yn hirach na'r amser targed am brofion diagnostig a gwasanaethau therapi wedi cynyddu ym mis Ionawr. Roedd amseroedd aros cyfartalog (canolrif) ar gyfer profion diagnostig a gwasanaethau therapi wedi gostwng.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth gryno am ddata a gyhoeddwyd yn y meysydd canlynol: Ambiwlansys, Damweiniau ac Achosion Brys, Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC), Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT), Amseroedd aros Diagnostig a Therapi (DATS), Amseroedd aros canser ac Atgyfeirio cleifion allanol.

Mae data ym mhob maes ar gael mewn adnodd ar-lein, sy'n galluogi'r defnyddwyr i ryngweithio â'r data a chwilio drwyddo, ac mewn tablau StatsCymru manwl. Wrth i ni gyhoeddi ein datganiadau misol ar weithgareddau y GIG ar un diwrnod, bydd y defnyddwyr yn cael darlun mwy cyflawn ac integredig o weithgareddau a pherfformiad, gan roi golwg gyffredinol fwy cydlynol ar y GIG yng Nghymru.

### Yn y datganiad hwn

Prif bwyntiau 2
Gwybodaeth allweddol am ansawdd 7

Ystadegydd: Rhys Strafford~ 0300 025 0058 ~ ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

Roedd perfformiad atgyfeirio a thriniaeth wedi gostwng ers y mis diwethaf. Roedd canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos wedi gostwng (yr isaf ers mis Medi 2011) ac roedd y nifer a oedd wedi aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu (yr uchaf ers mis Awst 2015). Roedd yr amser cyfartalog ar gyfer aros am driniaeth hefyd yn uwch na'r mis diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2020, mae nifer y cleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau cael triniaeth drwy'r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser wedi cynyddu. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod mae'r nifer yn dechrau ar driniaeth heb fod drwy'r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser wedi gostwng. Roedd y perfformiad yn is na'r targed ar gyfer y rheini sy'n cael eu trin ar y llwybr brys a'r rhai nad ydynt ar y llwybr brys. Mae ystadegau arbrofol yn dangos bod canran y cleifion a gafodd eu trin o fewn yr amser targed hefyd wedi gostwng ar gyfer yr un llwybr canser.

## Prif bwyntiau

### Galw a gweithgareddau

### Gofal heb ei drefnu (Chwefror 2020)

- Ym mis Chwefror 2020, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 35,987 o alwadau brys, cyfartaledd o 1,241 y diwrnod, i lawr o 1,271 ym mis Ionawr 2020. Roedd cyfran y galwadau mwyaf difrifol ('galwadau coch') yn 6.1 y cant, i lawr o 6.4 y cant ym mis Ionawr. Fodd bynnag, dyma'r chweched mis yn olynol lle'r oedd galwadau coch yn cyfrif am 6 y cant neu fwy o'r cyfanswm. Cafwyd newidiadau o ran arferion delio â galwadau sydd wedi effeithio ar nifer y galwadau coch. Gweler y nodiadau i gael rhagor o wybodaeth.

- Mae nifer y galwadau brys i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn codi'n raddol yn y tymor hir. Ers cychwyn casglu data misol ym mis Ebrill 2006, mae'r galwadau dyddiol ar gyfartaledd wedi codi o lai na 1,000 y diwrnod i rhwng 1,200 a 1,450 y diwrnod. Roedd nifer y galwadau coch dyddiol ar gyfartaledd ym mis Chwefror yn 76, i lawr o 82 ym mis Ionawr . Cafwyd newidiadau o ran arferion delio â galwadau sydd wedi effeithio ar nifer y galwadau coch, gweler y nodiadau i gael rhagor o wybodaeth.

- Mae derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn uwch yn ystod misoedd yr haf na'r gaeaf fel arfer. Cafwyd 2,694 o dderbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd bob dydd ym mis Chwefror. Mae hyn yn 0.6 y cant yn is nag ym mis Ionawr 2020 (17 yn llai o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd) a 4.7 y cant yn is nag ym mis Chwefror 2020 (133 yn llai o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd).

- Roedd cyfanswm nifer y derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2020 wedi cynyddu 2.4 y cant ers y flwyddyn flaenorol, ac yn ôl y duedd yn y tymor canolig, mae 8.5 y cant yn uwch na'r cyfnod o 12 mis cyfatebol bum mlynedd yn ôl (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2015).

- Ym mis Chwefror, derbyniwyd 15,435 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae hyn 843 yn llai na mis Ionawr 2020 a 375 yn llai na mis Chwefror 2019. Roedd cleifion 75 oed a hŷn yn cyfrif am 31.8 y cant o'r derbyniadau (4,901); mae hyn yn 0.5 y cant (25 o gleifion) yn fwy nag ym mis Chwefror 2019.

## Gofal wedi'i drefnu (Ionawr 2020)

- Atgyfeiriwyd cyfartaledd o 3,809 o gleifion allanol bob diwrnod ym mis Ionawr 2020. Mae hyn 21.0 y cant yn fwy o'i gymharu â mis Rhagfyr 2019 ac yn 1.0 y cant yn fwy o'i gymharu â mis Ionawr 2019.
- Nid oedd Cwm Taf yn gallu darparu data ar gyfer llwybrau sydd wedi cau rhwng mis Awst 2018 a mis Mawrth 2019. Mae'r un broblem yn effeithio ar Gwm Taf Morgannwg, ac nid ydynt wedi cyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2019 ymlaen. Felly, nid yw'r ffigurau a'r cymariaethau canlynol ar gyfer llwybrau wedi cau yn cynnwys Cwm Taf na Chwm Taf Morgannwg. Nifer cyfartalog y llwybrau cleifion a oedd wedi cau fesul diwrnod gwaith ym mis Ionawr 2020 oedd 4,103 , 10.5 y cant yn fwy na mis Rhagfyr 2019. Mae nifer y llwybrau sydd wedi cau fesul diwrnod gwaith yn amrywio drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r niferoedd yn dueddol o fod yn is ym mis Awst a mis Rhagfyr. Roedd 994,888 o lwybrau wedi cau yn ystod y 12 mis hyd at fis Ionawr 2020, gostyngiad o 1.3 y cant (13,299 o lwybrau) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol.
- Yn ystod y 12 mis hyd at fis Ionawr 2020, dechreuwyd trin 8,229 o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser. Mae hyn yn gynnydd o 1.7 y cant (139 o gleifion) dros y 12 mis blaenorol a chynnydd o 24.2 y cant (1,604 o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Yn ystod y 12 mis hyd at fis Ionawr 2020, dechreuwyd trin 9,071 o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser. Mae hyn yn ostyngiad o 3.5 y cant (330 o gleifion) dros y 12 mis blaenorol a gostyngiad o 5.7 y cant (550 o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Mae'r ystadegau arbrofol ar gyfer yr un llwybr canser yn dangos bod 13,753 o gleifion wedi dod ar y llwybr yma ym mis Ionawr 2020, cynnydd o 27.9 y cant (2,999 o gleifion) ers mis Rhagfyr 2019. Cyfrifir cleifion ar y llwybrau brys a'r rheini nad ydynt ar y llwybrau brys, yn ogystal â'r un llwybr canser. Darllenwch yr adran nodiadau i gael rhagor o wybodaeth.
- Ym mis Ionawr 2020, cafodd 1,485 o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt eu trin ar yr un llwybr canser, sef cynnydd o 3.9 y cant (56 o gleifion) ers mis Rhagfyr 2019.

## Perfformiad

## Gofal heb ei drefnu (Chwefror 2020)

- Ym mis Chwefror 2020, llwyddodd 67.8 y cant o'r ymatebion brys i alwadau lle mae bywyd yn y fantol (galwadau 'coch') i gyrraedd o fewn 8 munud. Roedd hyn 1.8 pwynt canran yn uwch nag ym mis Ionawr ac roedd yn uwch na'r targed o 65 y cant. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na'r un mis y llynedd (72.4 y cant ym mis Chwefror 2019).
- Treuliodd 74.6 y cant o gleifion (58,317 o gleifion) lai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn yn gynnydd o 1.1 pwynt canran ers mis Ionawr 2020 ond 4.3 pwynt canran yn is nag ym mis Chwefror 2019. Mae'r targed o 95 y cant yn parhau i gael ei fethu.

- Treuliodd 5,249 o gleifion 12 awr neu ragor mewn cyfleuster gofal mewn argyfwng, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn yn ostyngiad o 1,711 o gleifion (neu 24.6 y cant) o'i gymharu â mis Ionawr 2020, ond yn gynnydd o 1,243 (neu 31.0 y cant) o gleifion o'i gymharu â mis Chwefror 2019.

## Gofal wedi'i drefnu (Ionawr 2020)

- Erbyn diwedd mis Ionawr 2020, roedd 462,358 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau eu triniaeth. O'r rhain, roedd 83.4 y cant (385,496) wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos. Mae hyn o dan y targed o 95 y cant a'r ganran isaf ers i ddata cymharol fod ar gael (Medi 2011), ac roedd 27,314 (5.9 y cant) wedi bod yn aros am dros 36 wythnos o'r dyddiad y cafodd yr ysbyty eu llythyr atgyfeirio.

- Roedd y ganran a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng 0.2 pwynt canran o'i gymharu â'r mis diwethaf ac roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros dros 36 wythnos wedi cynyddu 1,765 (neu 6.9 y cant).

- Mae perfformiad rhwng yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth o'i gymharu â'r ddau darged wedi bod yn eithaf sefydlog ers rhwng 2016 a 2018. Fe wnaeth y perfformiad wella yn 2019, ond mae wedi dirywio dros y misoedd diwethaf.

- Ers mis Ionawr 2014, y duedd sydd wedi'i gweld yw gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am brofion diagnostig penodol. Fodd bynnag, ers y mis diwethaf, mae'r nifer wedi cynyddu 3.8 y cant (neu 185 o gleifion) o 4,902 i 5,0874 ym mis Ionawr 2020.

- Roedd nifer y bobl a oedd yn aros dros 14 wythnos am wasanaethau therapi penodol wedi cynyddu 29.3 y cant (54 claf) yn ystod y mis, gan godi o 184 ym mis Rhagfyr 2019 i 238 ym mis Ionawr 2020.

- Ym mis Ionawr 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 79.0 y cant o gleifion (545 allan o 690) a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, a hynny o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn o dan y targed o 95 y cant ac yn ostyngiad (1.6 pwynt canran) ers mis Rhagfyr 2019.

- Ar gyfer y 12 mis diwethaf, hyd at fis Ionawr 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 81.5 y cant o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, a hynny o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn yn 4.6 pwynt canran yn is na'r 12 mis blaenorol a 5.3 pwynt canran yn is na'r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.

- Ym mis Ionawr 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 94.6 y cant o gleifion (752 allan o 795) a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn o dan y targed o 98 y cant a 2.0 pwynt canran yn is na mis Rhagfyr 2019.

- Ar gyfer y 12 mis diwethaf, hyd at fis Ionawr 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 96.4 y cant o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn yn 0.9 pwynt canran yn is na'r 12 mis blaenorol ac yn 1.2 pwynt canran yn is na'r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.

- Ym mis Ionawr 2020, roedd 73.7 y cant o gleifion (1,094 allan o 1,485) a oedd newydd gael diagnosis o ganser drwy un llwybr canser wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod i'r cyfnod amheuaeth (gydag unrhyw oedi); mae hyn 1.3 pwynt canran yn is nag ym mis Rhagfyr 2019.

- Yn dilyn problemau â data'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a nodwyd ym mis Gorffennaf 2019, mae gwybodaeth reoli dros dro yn dal i gael ei chyhoeddi. Nid oes data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gael ar hyn o bryd. Darllenwch yr Wybodaeth Allweddol am Ansawdd i gael rhagor o wybodaeth.

- Roedd perfformiad wedi gwella ar gyfer y rhai a oedd yn aros llai na 4 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf gyda'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ym mis Ionawr 2020. Roedd canran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 4 wythnos wedi cynyddu o 64.8 y cant ym mis Rhagfyr 2019 (383 o 591 o gleifion) i 80.4 y cant ym mis Ionawr 2020 (432 o 537 o gleifion), gan gyflawni'r targed am y tro cyntaf ers i ddata cymharol fod ar gael; fodd bynnag, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i gynnwys).

## Gwybodaeth gyd-destunol

Mae'r siartiau yn y dangosfwrdd ar-lein yn darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau sy'n ategu'r wybodaeth am berfformiad y GIG a ddangosir uchod.

Mae rhai siartiau'n cynnwys amseroedd canolrif a chymedr. Er enghraifft, mewn perthynas ag amseroedd ymateb ambiwlansys:

- Yr amser ymateb **canolrif** yw'r amser canol pan fydd yr holl ymatebion i argyfwng yn cael eu rhoi mewn trefn o'r cyflymaf i'r arafaf, felly bydd hanner yr holl ymatebion i argyfwng yn cyrraedd o fewn yr amser hwn. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn lle'r cymedr fel arfer gan ei fod yn llai tebygol na'r cymedr o arwain at werthoedd eithaf.

- Yr amser ymateb **cymedr** yw cyfanswm yr amser ar gyfer pob ymateb i argyfwng wedi'i rannu â nifer yr ymatebion i argyfwng. Mae'r ambiwlansys hynny sy'n cymryd mwy o amser i gyrraedd eu cyrchfan yn fwy tebygol o effeithio ar y cymedr.

### Gofal heb ei drefnu

- Er na lwyddwyd i gyrraedd y targed o 4 awr ar gyfer yr adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ers i'r targed gael ei gyflwyno, mae'r amser canolrif mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi bod yn weddol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diweddar. Ym mis Chwefror 2020, 2 awr 29 munud oedd yr amser canolrif, i lawr o 2 awr 32 munud ym mis Ionawr 2020.

- Mae’r amser canolrif a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn amrywio yn ôl oedran. Mae plant yn gyffredinol yn treulio rhwng 1 awr 30 munud a 2 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd, a chleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn gyffredinol yn treulio rhwng 3 awr a 4 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2020, yr amser aros cyfartalog (canolrif) ar gyfer cleifion 85 oed a hŷn oedd 4 awr 46 munud.
- 5 munud 48 eiliad oedd y canolrif ar gyfer amser ymateb y gwasanaeth ambiwlans i alwadau coch ym mis Chwefror 2020; o dan 6 munud am y tro cyntaf ers mis Medi 2019. Bu newidiadau i’r arferion o ddelio â galwadau sydd wedi effeithio ar nifer y galwadau coch; i gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar y nodiadau.
- Ymatebwyd i ychydig dros hanner (50.3 y cant) o’r galwadau ambr o fewn 30 munud ym mis Chwefror 2020.
- Er bod union nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn amrywio bob mis, gostwng yw’r duedd hirdymor wedi bod ers 2004, gyda’r nifer wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd oedi gyda 448 o gleifion ym mis Chwefror 2020. Mae hyn i fyny o 423 ym mis Ionawr 2020. Roedd y cyfartaledd tri mis rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror yn 442, o’i gymharu â’r cyfartaledd tri mis o 463 rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr.

## Gofal wedi'i drefnu

- Roedd yr amser aros canolrif i dechrau triniaeth yn 10.8 wythnos ym mis Ionawr 2020, i fyny ychydig o 10.7 wythnos ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r amser aros canolrif yn gyffredinol wedi bod yn tua 10 wythnos ers diwedd 2013.
- Yr amser aros canolrif ar gyfer profion diagnostig oedd 2.5 wythnos ym mis Ionawr 2020, i lawr o 3.3 wythnos ym mis Rhagfyr 2019.
- Yr amser aros canolrif ar gyfer gwasanaethau therapi oedd 3.1 wythnos ym mis Ionawr 2020, i lawr o 4.2 wythnos ym mis Rhagfyr 2019.
- Yn gyffredinol, mae'r amser aros canolrif ar gyfer y rheini sy’n aros am brofion diagnostig wedi gostwng ar y cyfan ers 2014. Roedd yr amseroedd aros canolrif ar gyfer y rheini sy’n aros am wasanaethau therapi wedi cynyddu rhwng 2012 a 2017, ond maent wedi gostwng ers hynny.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn

### Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud bwrdd iechyd

Mae darpariaeth gwasanaeth iechyd ar gyfer preswylwyr awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o Abertawe Bro Morgannwg i Gwm Taf ar 1 Ebrill 2019. Cafodd enwau'r byrddau iechyd eu cadarnhau yn datganiad ysgrifenedig. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r holl setiau data nawr yn cael eu cyhoeddi ar y sail newydd (dechreuodd data ar gyfer gofal heb ei drefnu gael eu cyhoeddi ar y sail newydd yn natganiad mis Mai 2019 a bydd hynny'n digwydd ar gyfer gofal wedi'i drefnu o'r datganiad hwn ymlaen). Mae dadansoddiadau'r bwrdd iechyd lleol ar StatsCymru a'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn adlewyrchu'r newid hwn i'r ffiniau. Gan mai crynodebau data ar berfformiad yw'r rhain, nid ydym wedi ôl-ddyddio y data hanesyddol ar gyfer y byrddau iechyd newydd. Byddwn yn rhoi'r gorau i gyhoeddi data ar gyfer y ffiniau blaenorol.

### Amseroedd ymateb ambiwlansys

Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r model ymateb clinigol, mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu arferion trin galwadau a chategoreiddio digwyddiadau. Ymddengys fod diweddaru arferion trin galwadau yn ystod Mai 2019 wedi arwain at newid yn nifer y digwyddiadau Coch. Felly, nid oes modd cymharu niferoedd digwyddiadau coch cyn y cyfnod hwn. Gallai cynnydd yn nifer y digwyddiadau coch effeithio ar berfformiad hefyd oherwydd bod angen adnoddau ychwanegol i fynd at ddigwyddiad coch.

### Atgyfeirio i dderbyn triniaeth

Nid yw Cwm Taf wedi llwyddo i ddarparu data ar gyfer llwybrau wedi'u cau ers mis Awst 2018 (gan gynnwys Cwm Taf cyn Ebrill 2019) yn sgil problemau TG ar ôl diweddaru meddalwedd. Felly, nid yw'r rhifau a'r cymariaethau ar gyfer llwybrau wedi'u cau o ddatganiad Hydref 2018 ymlaen yn cynnwys Cwm Taf. Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n trwsio'r broblem. Mae'r data ar gyfer Cwm Taf ar gyfer y misoedd blaenorol ar gael ar StatsCymru.

Rhoddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wybod i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2019 eu bod yn credu fod problem ag adrodd ar rai rhestrau aros atgyfeirio i dderbyn triniaeth. Fe wnaethant ofyn i Uned Gyflawni GIG Cymru gynnal adolygiad, ac arweiniodd hyn at ychwanegu cyfanswm o 1,783 o gleifion ychwanegol at y rhestr aros atgyfeirio i dderbyn triniaeth wrth gyhoeddi data Gorffennaf 2019 ym mis Medi 2019. Hefyd, adolygodd yr Uned Gyflawni'r rhestr aros ar gyfer triniaethau diagnostig, a chanfod y dylai 1,288 o gleifion ychwanegol fod wedi cael eu nodi. Ychwanegwyd y cleifion hyn at y ffigurau swyddogol ar gyfer diwedd Gorffennaf 2019, yr adroddwyd arnynt ym mis Medi 2019. Er nad oedd y cleifion yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ystadegau swyddogol, roeddent yn cael eu hadrodd yn fewnol i'r bwrdd iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â byrddau iechyd eraill ac mae wedi cael gwybod bod adroddiadau'n cael eu darparu ar yr holl restrau aros yn unol â'r Canllawiau Atgyfeirio i dderbyn Triniaeth.

## Atgyfeiriadau ac atgyfeirio i dderbyn triniaeth

I sicrhau mwy o gysondeb ar draws data'r byrddau iechyd, mae'r holl godau triniaeth newydd wedi'u newid yn ôl i'r hyn oedd yn cyfateb iddynt cyn mis Ebrill 2016. Mae hyn nawr wedi'i weithredu ar gyfer pob data atgyfeirio i dderbyn triniaeth hanesyddol. Caiff hyn ei roi ar waith nes y bydd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu adroddiadau gan ddefnyddio'r codau newydd yn gyson. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Newid Set Data (2014/08).

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Yn dilyn problemau diweddar â data CAMHS, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth reoli dros dro; mae data ar gael ers mis Ebrill 2018 lle y bo'n bosib. Nid yw'r data hyn wedi bod drwy'r broses safonau data, ond mae byrddau iechyd wedi sicrhau bod y data'n adlewyrchu'n gywir nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth gan dimau arbenigol CAMHS. Nid oes data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gael ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu o fewn model gwasanaeth integredig, ac nid yw'n bosibl cyfleu'r amseroedd aros o'r amser pan wnaed yr atgyfeiriad i'r amser pan ddechreuodd y claf dderbyn triniaeth gan dîm arbenigol CAMHS. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i weld sut gellid cyfleu'r wybodaeth hon yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn asesu pa ddata hanesyddol y gellir eu cyhoeddi hefyd, ac mae'n gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i fynd â data arbenigol CAMHS drwy'r broses safonau data er mwyn gallu eu hawdurdodi'n gasgliad cenedlaethol.

## Un Llwybr Canser

Mae Un Llwybr Canser yn gasgliad newydd o amseroedd aros a gyhoeddwyd yn 2018 gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r dull hwn o gasglu yn mesur amseroedd aros o'r cyfnod pan fydd amheuaeth o ganser yn hytrach nag o'r amser y bydd yr ysbyty'n derbyn eu hatgyfeiriad.

Mae'r data'n cynnwys nifer y cleifion sy'n dod ar y llwybr, nifer y cleifion sy'n cael triniaeth, a nifer a chanran y cleifion sy'n cael triniaeth o fewn y targed o 62 diwrnod (gydag unrhyw oedi). Ar hyn o bryd, adroddir am hyn ochr yn ochr â'r Llwybr Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser a heb fod drwy'r Llwybr Amheuaeth Brys, ond y bwriad yn y pendraw yw y bydd hyn yn disodli'r ddwy ffordd arall o fesur. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar yr Hysbysiad Newid Set Data. Sylwch mai dim ond cleifion y nodwyd nad oedd ganddynt ganser yn ddiweddarach sydd wedi'u cynnwys yn ffigurau Powys ar gyfer y rhai sy'n dod ar y llwybr.

Dyma'r targedau presennol ar gyfer amseroedd aros canser:

Llwybr Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser: Ni ddylai 95% o gleifion aros mwy na 62 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion sydd ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio ar ôl cael gwybod yr amheuir bod canser arnynt ee drwy feddyg teulu.

Nid drwy'r Llwybr Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser: Ni ddylai 98% o gleifion aros mwy na 31 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio yn dilyn diagnosis damweiniol ee yn ystod triniaeth arall.

Mae'r rhain yn mesur yr amser rhwng y diagnosis a'r driniaeth.

"Un Llwybr Canser" yw'r llwybr newydd – mae'n cynnwys pob un claf o'r eiliad yr amheuir bod canser, nid drwy ddiagnosis. Yr amser targed yw 62 diwrnod, o'r amheuaeth i gychwyn y driniaeth.

### Addasiadau Canser

Gellir tynnu claf oddi ar y rhestr aros os nad yw'r claf yn gallu symud ymlaen i gam nesaf y llwybr, naill ai am resymau meddygol neu gymdeithasol.  Bydd hyn yn para am y cyfnod na fydd y claf ar gael.  Rôl y bwrdd iechyd yw pwysleisio pa mor frys y mae ar y claf angen triniaeth a sicrhau bod y claf yn deall canlyniadau unrhyw oedi.

### Ffynonellau

Mae data ymateb ambiwlansys yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.  Mae data amseroedd aros canser yn cael eu darparu gan y byrddau iechyd lleol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.  Mae'r holl ddata arall sydd wedi'u crynhoi yma yn cael eu casglu oddi wrth fyrddau iechyd lleol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.  Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiadau Ansawdd ar gyfer pob maes gwasanaeth (gweler y dolenni isod).

### Yr amserlen

Nid oes gan bob set ddata yr un amserlenni ar gyfer prosesu.  I sicrhau bod y data ar gael gynted ag y bo modd, rydym yn cyhoeddi data gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Chwefror, dyweder, gyda'r data gofal wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ionawr.

### Data

Adnodd ar-lein - mae adnodd rhyngweithiol ar-lein wedi'i ddatblygu, ac mae ganddo dair rhan:

- Galw/Gweithgarwch – ee, derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, galwadau i ambiwlansys, atgyfeiriadau
- Perfformiad – ee, perfformiad yn erbyn targedau adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac ati
- Cyd-destun – ee, amser canolrif mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, amseroedd ymateb canolrif ambiwlansys, amseroedd aros canolrif rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae modd gweld, defnyddio neu lwytho rhagor o setiau data manwl i lawr drwy ein API data agored ar StatsCymru.

Cyfrifir newidiadau pwynt canran gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

### Mesurau perfformiad

Mae Fframwaith Cyflawni GIG Cymru yn cael ei ddefnyddio i fesur cyflawniad.

### Amseroedd ymateb ambiwlansys

Nodiadau: Fel y cyhoeddwyd mewn datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd, rhoddwyd model ymateb clinigol newydd ar waith yng Nghymru o 1 Hydref 2015. Deuddeg mis oedd hyd y treial ar y cychwyn ond cafodd ei ymestyn am 6 mis arall. Ond, ar ôl cael adroddiad gwerthuso annibynnol a

gomisiynwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, rhoddwyd y model ymateb clinigol ar waith (Chwefror 2017). Gweler yr Adroddiad Ansawdd i gael rhagor o fanylion.

Categorïau galwadau a thargedau:

Coch: Lle mae bywyd rhywun yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon). Y targed yng Nghymru yw ymateb i 65% o'r galwadau hyn mewn 8 munud.

Ambr: Difrifol, ond nid yw bywyd rhywun yn y fantol (cleifion fydd yn aml yn gorfod cael triniaeth yn y fan a'r lle, ac yna'n gorfod mynd i'r ysbyty). Nid oes targed amser ar gyfer galwadau ambr.

Gwyrdd: Heb fod yn frys (yn aml, bydd gwasanaethau iechyd eraill ac asesiad clinigol dros y ffôn yn gallu rheoli'r achosion hyn). Nid oes targed amser swyddogol ar gyfer y galwadau hyn.

Mae categori galwad yn cael ei bennu ar sail yr wybodaeth a roddir gan y galwr yn ei ymatebion i set o gwestiynau wedi'u sgriptio, sydd yna'n cael eu brysbennu'n awtomatig gan y system Pennu Blaenoriaethau Meddygol (MPDS). Rhoddir hyd at ddau funud i'r rheini sy'n cymryd yr alwad adnabod natur cyflwr y claf a pha mor ddifrifol ydyw (ar gyfer y galwadau hynny lle nad yw bywyd yn y fantol). Bydd ambiwlans neu adnodd priodol arall yn cael ei ddanfon gynted ag y bydd y cyflwr a'i ddifrifoldeb wedi'i bennu. Gyda galwadau hynod ddwys, gall hyn fod tra mae'r galwr yn dal ar y ffôn. Mae dau achlysur lle mae modd newid blaenoriaeth galwad; pan fydd gwybodaeth newydd gan y galwr yn cael ei hasesu drwy'r system MPDS, neu pan fydd nyrs neu barafeddyg wedi casglu rhagor o wybodaeth am gyflwr y claf dros y ffôn.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwledydd eraill y DU hefyd yn mesur amseroedd ymateb ambiwlansys. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Mae angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Gwasanaethau Ambiwlans: StatsCymru

Gwasanaethau Ambiwlans: Adroddiad Ansawdd

Gwasanaethau Ambiwlans: Cyhoeddiadau Blynyddol

## Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Nodiadau: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n darparu'r data hyn o Set Ddata Adran Achosion Brys (EDDS). Dyma ffynhonnell lawn o ddata lefel cleifion ar dderbyniadau i gyfleusterau gofal mewn argyfwng yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer targedau perfformiad.

Targedau: Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys:

- Dylai 95 y cant o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau
- Dylid cael gwared ar achosion o aros am 12 awr neu fwy mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Diwygiadau: Gall byrddau iechyd ddiwygio data ar gyfer misoedd blaenorol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n bosibl y gallai data Damweiniau ac Achosion Brys gael eu diwygio bob mis, ond fel arfer mân newidiadau yw'r rhain ac maent yn dueddol o effeithio ar y misoedd diwethaf a gyhoeddwyd yn unig. Bydd unrhyw ddiwygiadau sy'n arwain at newid y pwyntiau allweddol yn cael eu hamlygu yn y datganiad ystadegol. Caiff data hanesyddol eu diwygio ar StatsWales ar ôl cyhoeddi'r data diweddaraf.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Ystadegau Gwladol. Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am yr amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, er mae modd labelu hyn o dan yr Adran Achosion Brys (fel yn yr Alban) neu Ofal mewn Argyfwng (fel yng Ngogledd Iwerddon). Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU; bod y systemau sy'n casglu'r data yn wahanol. Gweler yr Adroddiad Ansawdd i gael rhagor o fanylion.

Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: StatsCymru

Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Adroddiad Ansawdd

Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Cyhoeddiadau Blynyddol

## Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Nodiadau: Mae'r llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cynnwys yr amser a arhoswyd o gael atgyfeiriad i fynd i'r ysbyty i gael triniaeth ac mae'n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau, profion, sganiau neu driniaethau eraill yn yr ysbyty sydd eu hangen cyn cael triniaeth. Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir a'r wybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Targedau: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth:

- 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a chael triniaeth
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyhoeddi amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth – sy'n mesur llwybr cyflawn y claf o'r atgyfeiriad cychwynnol ee, gan feddyg teulu, at gael ei ryddhau neu at gael triniaeth y cytunir arni – yn ogystal â chamau penodol yn yr amseroedd aros am driniaeth. Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi ystadegau amseroedd aros ar gyfer cleifion mewnol, cleifion allanol a chamau diagnostig ar gyfer triniaeth – sy'n mesur amseroedd aros ar gyfer y gwahanol gamau mewn llwybr claf, fel arfer yr amser aros penodol ar gyfer triniaeth i gleifion mewnol, diagnostig neu gleifion allanol, neu ar gyfer gwasanaethau penodol fel awdioleg.

O ran yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er bod y cysyniadau yn debyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o ran mesur yr amseroedd aros rhwng yr amser y bydd yr ysbyty yn cael yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth, a'r mathau o lwybrau cleifion sy'n cael eu cynnwys, mae gwahaniaethau amlwg yn y rheolau unigol ynghylch mesur amseroedd aros. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd 'y cloc yn stopio neu'n oedi', gydag eithriadau, a'r arbenigeddau sy'n cael eu cynnwys.

Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: StatsCymru

Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Adroddiad Ansawdd

Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Cyhoeddiadau Blynyddol

### Amseroedd aros Diagnostig a Therapi (DATS)

Targedau: Amseroedd aros i gael gafael ar wasanaethau diagnostig a therapi (safonau gweithredu ar gyfer amseroedd aros hiraf):

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Gweler yr Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth

Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: StatsCymru

Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: Adroddiad Ansawdd

Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: Cyhoeddiadau Blynyddol

### Amseroedd aros canser

Nodiadau: Mae cleifion sydd â chanser yn cael eu rhannu'n ddau grŵp penodol (yn unol â'r safonau canser).

Y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol (ee, gan feddyg teulu) i ysbyty fel achosion brys ag amheuaeth o ganser, a bod hyn wedyn yn cael ei

gadarnhau fel achos brys gan yr ymgynghorydd meddygol neu gan aelod dynodedig o'r Tîm Amlddisgyblaethol.

Y rheini nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sydd â chanser (ni waeth beth yw eu llwybr atgyfeirio), nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod fel cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio fel achos brys ag amheuaeth o ganser.

Targedau: Amseroedd aros canser:

- Bydd o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n cael gwybod bod canser arnynt, drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod o gael eu hatgyfeirio.
- Bydd o leiaf 98 y cant o gleifion sydd newydd gael gwybod bod canser arnynt, ond nid drwy'r llwybr brys, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod o'r penderfyniad i drin y canser (ni waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio).

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwledydd eraill y DU yn mesur amseroedd aros canser hefyd. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth.  Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Amseroedd aros canser: StatsCymru

Amseroedd aros canser: Adroddiad Ansawdd

Amseroedd aros canser: Cyhoeddiadau Blynyddol

### Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC)

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae ystadegau tebyg yn cael eu casglu yn Lloegr a'r Alban, ond mae'n bosib y bydd y manylion yn wahanol. Dylid edrych ar y canllawiau manwl sydd ar gael ar wefan pob gwlad cyn dechrau defnyddio'r ystadegau hyn fel ffordd o gymharu.

Oedi wrth drosglwyddo gofal: StatsCymru

Oedi wrth drosglwyddo gofal: Adroddiad Ansawdd

Oedi wrth drosglwyddo gofal: Cyhoeddiadau Blynyddol

### Atgyfeirio cleifion allanol

Targedau: dim

Diwygiadau: O fis Rhagfyr 2015 ymlaen, nod ein polisi diwygio yw edrych yn ôl ar bob 12 mis ar sail fisol, a chynnal adolygiad llawn o'r ffigurau atgyfeirio yn ôl i fis Ebrill 2012 ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (pan mai'r data ar gyfer mis Mawrth mewn unrhyw flwyddyn benodol yw'r data diweddaraf sydd ar gael i ni).

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwybodaeth debyg ar gael o rannau eraill o'r DU ond nid oes modd cymharu'r data yn llwyr oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal. Mae diffiniadau a safonau y cytunwyd arnynt yng Nghymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws y Byrddau Iechyd Lleol.

Atgyfeirio cleifion allanol: StatsCymru

Atgyfeirio cleifion allanol: Adroddiad Ansawdd

### Cymaroldeb

Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth o ystadegau gweithgareddau a pherfformiad y GIG. Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU. Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp oedd edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r wybodaeth honno ar gael ar wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Mae gwybodaeth am ambiwlansys ar gael yma:

Gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr

Gwasanaethau ambiwlans yn yr Alban

Gwasanaethau ambiwlans yng Ngogledd Iwerddon

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi bod chwech o'r saith set o ystadegau a gyflwynir yma yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Nid yw Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol yn cael eu cyfri'n Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau

uchaf o ran cydymffurfio â’r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â’r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn dechrau pryderu ynghylch p’un a yw’r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â’r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw’r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo’r safonau’n cael eu hadfer.

Mae “Amser aros canser GIG Cymru”, “Gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru”, “Amser a dreuliwyd yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru”, “Amseroedd atgyfeiriad am driniaeth GIG Cymru”, “Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi GIG Cymru” ac “Oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru” yn Ystadegau Gwladol.

Cadarnhawyd statws parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2011 ar ôl i’r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wirio eu bod yn cydymffurfio. Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2011.

## Ystadegau Arbrofol

Ystadegau Arbrofol yw’r ystadegau sy’n gysylltiedig ag Un Llwybr Canser. Maent yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddefnyddwyr am y data a’r ffaith fod yr ystadegau yr adroddir arnynt yn dal i gael eu datblygu ac y gallai fod problemau o ran ansawdd y data. Fodd bynnag, mae’r ystadegau’n dal i fod o werth ar yr amod fod defnyddwyr yn eu hystyried yng nghyd-destun gwybodaeth am ansawdd y data sydd ar gael. Wrth i’r set ddata aeddfedu, bydd cwmpas ac ansawdd y data yr adroddir arnynt yn gwella, a gellir defnyddio’r data ar gyfer amrywiaeth eang o resymau buddiol.

Mae’r rhain yn ystadegau swyddogol sy’n cael eu cyhoeddi er mwyn cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn y broses o’u datblygu ac fel ffordd o sicrhau ansawdd yn gynnar yn y broses.

Dylai’r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â holl agweddau Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau’r DU. Mae’r Awdurdod yn ystyried a yw’r ystadegau’n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â’r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Rhagor o wybodaeth am ddefnyddio ystadegau arbrofol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae’n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at

gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:
https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig

## Diweddariad nesaf

23 Ebrill 2020

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir fel arall.

OGL